

# Cofnodion – Y Pwyllgor Busnes

---

Lleoliad:

Cynhadledd fideo drwy Zoom

Dyddiad: Dydd Mawrth, 13 Mehefin 2023

Amser: 09.02 – 09.27

## Preifat

---

### Yn bresennol

Categori	Enwau
Aelodau'r Pwyllgor:	Elin Jones AS, Llywydd (Cadeirydd) Lesley Griffiths AS Siân Gwenllian AS Darren Millar AS
Staff y Pwyllgor:	Graeme Francis (Clerc) Yan Thomas (Dirprwy Clerc)
Eraill yn bresennol	Jane Dodds AS David Rees AS, Y Dirprwy Lywydd Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd Julian Luke, Pennaeth Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth Bethan Davies, Pennaeth Gwasanaethau y Siambr a Phwyllgorau Helen Carey, Llywodraeth Cymru



# 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

Croesawodd y Llywydd yr Aelodau i'r cyfarfod

## 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod blaenorol i'w cyhoeddi

## 3 Trefn Busnes

### 3.1 Busnes yr wythnos hon

#### Dydd Mawrth

Nid oes dim newidiadau i fusnes yr wythnos hon.

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal fel yr eitem olaf o fusnes.
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 5.50pm.

#### Dydd Mercher

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal cyn y Ddadl Fer.
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 7.10pm.

Dywedodd y Trefnydd wrth y Pwyllgor Busnes y bydd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg a'r Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant, gyda chaniatâd y Llywydd, yn ymateb i'r ddadl ar adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar *Gymorth Iechyd Meddwl mewn Addysg Uwch* ddydd Mercher 14 Mehefin, yn dilyn cais gan y Pwyllgor.

### 3.2 Amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Tynnodd y Trefnydd sylw'r Rheolwyr Busnes at y newid a ganlyn:

## Dydd Mawrth 27 Mehefin 2023

- ~~Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid, Pasbortau Anifeiliaid Anwes ac Iechyd Anifeiliaid (Ffioedd) (Cymru) (Diwygio) 2023 (5 munud) - wedi'i ohirio tan 4 Gorffennaf~~

### 3.3 Amserlen busnes y Senedd ar gyfer y tair wythnos nesaf

Cytunwyd ar yr ychwanegiadau canlynol i amserlen Busnes y Senedd am y tair wythnos nesaf:

#### Dydd Mercher 21 Mehefin 2023 -

- Eitem ar y cyd â Senedd Ieuenctid Cymru (45 munud)

#### Dydd Mercher 5 Gorffennaf 2023 -

- Cynnig i nodi'r adroddiad blynyddol ar Gynllun Ieithoedd Swyddogol Comisiwn y Senedd ar gyfer 2022 - 23 (30 munud)
- Dadl Aelodau o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) - Luke Fletcher (60 munud)
- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol: Y fframwaith deddfwriaethol sy'n cefnogi darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Dadl fer: Samuel Kurtz (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro) (30 munud)

### **3.4 Cynigion deddfwriaethol yr Aelodau: Dewis Cynnig ar gyfer Dadl**

Trafododd y Pwyllgor Busnes y cynigion arfaethedig a chytunwyd i amserlennu'r cynnig canlynol ar gyfer dadl i'w drafod ar 21 Mehefin:

**Adam Price**

**NNDM8293**

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi cynnig ar gyfer Bil ar gyflwyno dyletswydd ddinesig i bleidleisio.
2. Yn nodi mai diben y Bil hwn fyddai:
  - a) ceisio efelychu llwyddiant democratiaethau eraill sydd wedi cyflwyno dyletswydd ddinesig i bleidleisio o ran cynyddu'r nifer sy'n pleidleisio mewn etholiadau a thrwy hynny wella lefel yr ymgysylltiad a'r cynrychioldeb ar draws pob oedran, dosbarth a chymuned;
  - b) cyflwyno dyletswydd ddinesig ar bawb sy'n gymwys i bleidleisio i gymryd rhan yn etholiadau'r Senedd ac etholiadau cyngor sir;
  - c) caniatáu i'r rhai sy'n dymuno nodi eu hanfodlonrwydd gydag ymgeisydd, plaid neu wleidyddiaeth yn ehangach i wneud hynny drwy opsiwn o ymatal yn gadarnhaol ar y papur pleidleisio;
  - d) caniatáu cyflwyno cosb briodol am beidio â chydymffurfio â'r rhwymedigaeth ddinesig i bleidleisio neu ymatal yn gadarnhaol, gydag eithriadau cyfreithlon; ac
  - e) darparu ar gyfer cyflwyno cyfnod peilot ar gyfer cyflwyno'r ddyletswydd ar sail oedran benodol.

### **3.5 Nodyn ar y trefniadau ar gyfer y sesiwn ar y cyd â Senedd Ieuentid Cymru**

Trafododd y Pwyllgor Busnes y trefniadau arfaethedig ar gyfer sesiwn ar y cyd â Senedd Ieuentid Cymru i'w chynnal ar 21 Mehefin 2023, a chytuno arnynt. Fel rhan o hyn, gwnaeth y Pwyllgor Busnes yr hyn a ganlyn:

- nodi bod y Llywydd, o dan Reol Sefydlog 13.3, yn bwriadu gwahodd Aelodau Senedd Ieuenctid Cymru i gymryd rhan mewn Cyfarfod Llawn at ddiben y sesiwn ar y cyd;
- cytuno i wroddi wrth y drefn arferol o dan Reol Sefydlog 12.6 a chaniatáu i'r eitem ddechrau am 12.45 a chael ei chynnal cyn busnes y Llywodraeth;
- nodi y bydd y Llywydd yn atal y cyfarfod dros dro ar ôl yr eitem er mwyn caniatáu i'r Siambr gael ei chlirio cyn i'r busnes arferol aildechrau;
- nodi y bydd manylion y trefniadau terfynol ar gyfer cynnal y sesiwn yn ymarferol yn cael eu darparu yng nghyfarfod yr wythnos ganlynol.

## **4 Ymgysylltu ag Ewrop**

### **4.1 Gohebiaeth am Gyngres Cyngor Ewrop**

Trafododd y Pwyllgor Busnes ymhellach enwebiadau'r Senedd ar gyfer cynrychiolwyr ar Gyngres Cyngor Ewrop a chytunodd i enwebu:

- Laura Anne Jones AS (aelod llawn) a Buffy Williams AS (aelod dirprwyol) fel cynrychiolwyr y Senedd ar Gyngres Cyngor Ewrop;
- cynrychiolydd Plaid Cymru i gymryd lle Laura Anne Jones AS ar Grŵp Cyswllt y Rhanbarthau, gydag Alun Davies AS hefyd yn parhau i fod yn aelod o'r Grŵp Cyswllt.

## **5 Unrhyw faterion eraill**

Cododd y Llywydd fater y Cwestiynau Amserol, yn dilyn cynnydd diweddar yn nifer y cwestiynau a gyflwynir, a rhoddodd wybod i'r Pwyllgor Busnes ei bod yn bwriadu rhoi ystyriaeth bellach ynghylch a ddylid gwneud unrhyw newidiadau i'r canllawiau er mwyn egluro'r meini prawf ymhellach. Trafododd y Pwyllgor Busnes hefyd a ellid cyhoeddi Cwestiynau Amserol a gyflwynir yn yr un modd â Chwestiynau Brys a chytunodd hefyd i

ystyried y ddau fater ymhellach, gyda'r bwriad o weithredu unrhyw newidiadau o ddechrau tymor yr hydref.